# Pwyllgor Cyllid

## Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) (Cymru) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

### Cefndir a Diben

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 (OS 2010/521) ('Gorchymyn 2010') drwy fewnosod darn yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Prif Orchymyn mewn perthynas ag Awdurdod Cyllid Cymru. Diben y newid hwn yw rhagnodi gradd y bobl hynny yn Awdurdod Cyllid Cymru (gradd 7 yn y Gwasanaeth Sifil neu statws cyfatebol) sy'n gallu awdurdodi gweithgarwch at ddibenion adrannau 28 a 29 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (ar gyfer defnyddio gwyliadwriaeth gyfeiriedig a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol).

### Gweithdrefn

2. Negyddol.

### Craffu ar y rhinweddau

3. Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiad technegol i Orchymyn 2010 a fydd yn galluogi person sy'n radd 7 yn y Gwasanaeth Sifil neu â statws cyfatebol ac sydd â chymwysterau priodol i awdurdodi'r defnydd o wyliadwriaeth gyfeiriedig a ffynonellau cuddwybodaeth ddynol mewn perthynas â phwerau ehangach Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer ymchwilio i droseddau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi rhesymeg y polisi hwn, ac ni ymddengys ei bod yn afresymol. Serch hynny, rydym am dynnu eich sylw at y Rheoliadau ar y sail eu bod o bwys cyfreithiol neu wleidyddol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. [Rheol Sefydlog 21.3(ii)]

## Amcanion polisi

### Datganiad ar y bwriad polisi

4. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y bwriad polisi ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.

5. Mae'r rheoliad a gyflwynwyd **yn cyd-fynd â** pholisïau cysylltiedig yn y datganiad.

6. Mae'n nodi bod Adran 185 o'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (Adran 187 yn y Ddeddf) yn diwygio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ("RIPA") er mwyn rhoi rhai pwerau i Awdurdod Cyllid Cymru ymgymryd â gwyliadwriaeth gyfeiriedig a ffynonellau cuddwybodaeth ddynol, yn amodol ar y mesurau diogelu angenrheidiol a ddarperir gan RIPA.

7. Mae'r rheoliad yn rhoi'r awdurdod i Awdurdod Cyllid Cymru ddefnyddio gwyliadwriaeth gyfeiriedig a ffynonellau cuddwybodaeth ddynol os oes angen gwneud hynny:

- at ddibenion atal neu ganfod troseddau neu atal anhrefn
- at ddibenion asesu neu gasglu unrhyw dreth, dyletswydd, ardoll neu unrhyw faich, cyfraniad neu dâl arall sy'n daladwy i un o adrannau'r Llywodraeth.

8. Mae hyn wedi'i nodi yn Adrannau 28(3) a 29(3) o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

### Gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid yng Nghyfnod 1

9. Gwnaed rhai sylwadau yng Nghyfnod 1 ynghylch y pwerau ymchwilio yn y Bil sy'n dyblygu pwerau Cyllid a Thollau EM. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

> "...the Bill seeks to replicate existing powers across England and Wales. So, we have no strong feeling in terms of additional powers…"

10. Cytunodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) fod y pwerau'n dyblygu'r hyn a ddefnyddir gan Cyllid a Thollau EM. Fodd bynnag, nododd ei bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru am adolygu perfformiad y pwerau hyn.

> "I think there needs to be some recognition, perhaps after three years of operation, that there is a review that could identify things that need to be added or amended in a legal sense."

11. Cefnogodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol y cynnig y dylid adolygu'r pwerau unwaith y bydd y trethi wedi'u sefydlu ac wedi bod ar waith am nifer o flynyddoedd.

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

*Ymgynghoriad y Cynulliad*

12. **Ni wnaed unrhyw sylwadau**.

*Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*

13. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn awgrymu, er ei bod yn bwysig i Awdurdod Cyllid Cymru gael y pwerau a gynigir, y dylent lynu mor agos â phosibl wrth bwerau Cyllid a Thollau EM. Osgoi dryswch oedd y rheswm a roddwyd dro ar ôl tro am hyn.

### Rheoliadau yn yr Alban

14. **Nid oes gan** Revenue Scotland bwerau ymchwilio sy'n ymwneud â gwyliadwriaeth gyfeiriedig a ffynonellau cuddwybodaeth ddynol. Mewn tystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y gwaith craffu a wnaed yng Nghyfnod 1, nododd Revenue Scotland:

> "…But we haven't provided Revenue Scotland with what you might call the top of the range powers in relation, for example, to intrusive surveillance [covert surveillance], because we didn't think that that was either necessary or appropriate in relation to the two taxes for which Revenue Scotland are responsible."

### Rheoliadau'r DU

15. Mae'r rheoliadau yn gyson â rheoliadau Cyllid a Thollau EM, sydd hefyd wedi'i gynnwys yn Atodlen i Orchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010.

16. Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaethau i un o uwch swyddogion Cyllid a Thollau EM awdurdodi'r defnydd o bwerau ymchwiliol a bennir yn y rheoliad, a gall swyddog uwch awdurdodi hyn mewn achosion brys. O ran Awdurdod Cyllid

Cymru, caniateir i unigolyn sydd ar radd 7 neu sydd â statws cyfatebol awdurdodi defnydd y pwerau hyn yn y naill achos neu'r llall.

## Ymateb y Llywodraeth

17.Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r adroddiad ac yn cydnabod bod yr OS hwn yn cynnwys materion sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

## Safbwynt y Pwyllgor

18. Nododd y Pwyllgor y Gorchymyn.